

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

West Coast Dental Care, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 13 Ionawr 2026

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ebrill 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C – Cynllun gwella	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o West Coast Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 13 Ionawr 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 17 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd gan gleifion yn ymddangos yn yr adroddiad. Fodd bynnag, oherwydd y nifer is o ymatebion gan staff, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu gan West Coast Dental Care yn 'dda iawn', ac roedd yr adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol iawn. Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal, a oedd yn cyd-fynd â'r adborth a gawsom gan gleifion ynghylch y gofal ag urddas a gafwyd drwy gydol eu taith fel cleifion.

Gwelsom fod y prosesau ar gyfer rheoli apwyntiadau a brysbennu cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn foddhaol. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod wedi gallu cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i alluogi clinigwyr a chleifion i gyfathrebu'n effeithiol. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod iechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn modd y gallent ei ddeall.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal i'r cleifion mewn modd amserol gyda'r clinigydd cywir.
- Roedd y practis yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg gyda'i staff er budd ei gleifion
- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt a'u bod yn gwybod â phwy i gysylltu pe byddai angen gofal deintyddol brys arnynt.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd yr holl ddyfeisiau deintyddol a archwiliwyd gennym i'w gweld mewn cyflwr da, yn lân, a bod modd eu dihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar waith ar gyfer dihalogi cyfarpar aml dro yn gadarn, gan ganiatáu ar gyfer darparu gofal diogel i'r cleifion.

Roedd yr holl drefniadau diogelwch tân ac iechyd a diogelwch ar gyfer y practis yn briodol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel mewn lleoliad diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod y gweithdrefnau hylendid dwylo a rheoli heintiau yn addas. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff bob amser yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau a bod y practis yn 'lân iawn'.

Roedd gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer defnyddio laser deintyddol y lleoliad mewn modd diogel ac effeithiol. Gwelsom fod angen cofnodi manylion ychwanegol yn nodiadau'r cleifion, ond rhoddodd y practis hyn ar waith yn syth.

Roedd yr holl gyfarpar brys ar gael yn y practis ac roeddent o fewn y dyddiadau defnyddio. Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant digonol ar adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio a'u rheoli'n ddiogel ac yn unol â pholisi rheoli meddyginiaethau cadarn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda a'i gadw'n lân, ac roedd yr holl gyfarpar yn gweithio'n iawn
- Roedd y mesurau diogelu yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Roedd cofnodion y cleifion yn rhoi darlun clir a chynhwysfawr o'r gofal a roddir i'r cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y practis yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Gwelsom drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith a oedd yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi ac yn gweithio gyda'r cymysgedd sgiliau cywir. Roedd y cofnodion staff a welsom yn gynhwysfawr ac yn bodloni'r gofynion addasrwydd i weithio. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn mynegi pryderon.

Roedd y gweithdrefnau sefydlu yn gadarn ac roedd rheolwyr y practis yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a oedd â'r nod o lywio gwelliant parhaus a chyflawni canlyniadau gwell i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd strwythurau rheoli clir a oedd yn helpu i redeg y practis yn effeithiol
- Roedd y trefniadau Dyletswydd Gonestrwydd yn gadarn
- Ymdriniwyd ag adborth gan gleifion yn briodol, ac roedd ffurflen bwrpasol ar gael i gleifion pediatrig ei llenwi.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Deintyddion a staff ardderchog."

"Mae pawb yn y practis hwn mor gymwynasgar a chyfeillgar. Mae'r gofal mor dda fel fy mod i a fy mhartner yn teithio dros awr i ddod yma. Fyddwn i ddim yn mynd i unman arall."

"Rydw i wedi teithio a byw ledled y DU, a dyma'r deintydd gorau i mi fod ato o bell ffordd."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth i gleifion a phosteri yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar gael yn yr ardaloedd aros ynghylch rhoi'r gorau i smygu, newidiadau i feddyginiaethau, a gwella iechyd deintyddol pediatriig. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG wedi'u harddangos yn ardal y dderbynfa. Roedd enwau pob aelod o'r staff, eu rhifau cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'u ffotograffau wedi'u harddangos lle y gellid eu gweld yn hawdd. Roedd datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion eu gweld ar gais. Roedd oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld yn glir y tu allan i'r practis.

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hiechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn modd y gallent ei ddeall. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal urddasol a pharchus i'r cleifion drwy gydol eu taith gofal. Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi

ateb eu cwestiynau. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn rhoi gofal parchus ac empathetig i gleifion unigol, gan gynnwys claf pediatrig brys. Roedd sylwadau'r cleifion o holiadur AGIC yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn wych, yn garedig ac mor barod i helpu.”

“Mae pob un o'r staff yn hawdd mynd atynt ac yn gyfeillgar. Gwasanaeth deintyddol hyfryd.”

“Rwyf wedi bod yn glaf yn y feddygfa am y rhan fwyaf o'm mywyd. Mae'n rhagorol. Mae'r staff yn gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn fy nhrin ag urddas a pharch. Ni allaf argymell y practis hwn ddigon.”

Dyweddodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol am gleifion yn cael ei hailadrodd dros y ffôn, ac er bod y dderbynfa ac un o'r manau aros wedi'u huno, ni chlywsom unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrafod dros y ffôn. Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau, ac roedd gwydr barugog yn ffenestri'r practis i atal cleifion rhag cael eu gweld yn ystod eu triniaeth. Roedd y mesurau hyn yn cynnal preifatrwydd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd pob aelod o'r staff yn ddarostyngedig i bolisi cyfrinachedd y practis a oedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff o ran diogelu gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dyweddodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael, a gwnaethant ddweud fod y staff wedi egluro'r hyn yr oeddent yn ei wneud drwy gydol eu hapwyntiad. Nododd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod risgiau a manteision eu triniaethau wedi cael eu hesbonio yn ogystal â'r costau dan sylw. Ar y cyfan, dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth. Dywedodd un claf:

“Cefais lawer o sicrwydd a gwnaethant lwyddo i wneud i mi deimlo fy mod i'n cael fy neall ac ni allwn fod wedi gofyn am ofal gwell. Deintydd a staff gwych.”

Amserol

Gofal amserol

Roedd trefniadau cadarn ar waith i ddefnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol ac i weld y cleifion mewn modd amserol. Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn cael eu gweld o fewn tair i bedair wythnos ar gyfer apwyntiadau arferol, er bod hyn yn amrywio rhwng yr ymarferwyr. Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau yn cael eu trefnu yn unol ag argaeledd y cleifion lle bynnag y bo'n bosibl, gan gynnwys blaenoriaethu cleifion pediatrig ar gyfer apwyntiadau y tu allan i oriau ysgol. Nododd y rhai a ymatebodd i arolwg cleifion AGIC eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Gallai cleifion drefnu apwyntiadau ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiad. Dywedodd y staff wrthym mai anaml yr oedd apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr ond pe bai apwyntiad yn para'n hirach na'r amser a neilltuwyd, y byddai'r clinigwyr y rhoi gwybod i'r dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r staff yn cysylltu â'r cleifion dros y ffôn os oeddent yn gwybod y byddai oedi cyn iddynt gyrraedd, a byddai apwyntiadau eraill yn cael eu cynnig, lle bo angen.

Gwelsom fod system brysbennu cleifion dros y ffôn briodol ar waith i roi blaenoriaeth i'r rheini yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf. Gwelsom fod amser yn cael ei neilltuo yn nyddiadur y practis bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau yn cael ei roi i'r cleifion allu cysylltu â'r practis mewn argyfwng. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud pe bai ganddynt haint neu pe bai argyfwng, ac â phwy y dylent gysylltu.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith i helpu i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu â chleifion yn eu dewis iaith. Roedd Language Line yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r cleifion yn ôl y gofyn, ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol. Byddai'r practis yn darparu gwybodaeth fwy arbenigol ar gais y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd y staff yn cael eu hannog i wisgo bathodynau 'laith Gwaith' ac roedd eu sgiliau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo i'r cleifion ar yr hysbysfwrdd gwybodaeth am staff yn y dderbynfa. Gwelsom fod dogfennaeth Cymraeg y practis yn cael ei chynnig fel mater o drefn i gleifion Cymraeg eu hiaith, a bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn cael eu cyflogi yn y practis.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod polisïau addas ar waith yn y practis i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau'r cleifion a'r staff. Roedd y staff hefyd yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau'r cleifion ac atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Roedd polisi dim goddefgarwch a pholisi atal aflonyddu ar waith i ddiogelu'r staff rhag ymddygiad ymosodol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod yr adeilad yn hygyrch. Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol ar gyfer cleifion a chyflogeion. Roedd y rhain yn cynnwys chwyddwydr yn y dderbynfa i gynorthwyo cleifion â nam ar eu golwg ac oriau gweithio hyblyg i staff â chyfrifoldebau gofalu. Roedd y cleifion yn gallu dewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad, i bob golwg, mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan, yn daclus ac wedi'i orffen i safon uchel. Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, gydag ardaloedd aros o faint priodol ar gyfer nifer y cleifion a'r pedair meddygfa. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol a gwelsom fod ardaloedd newid addas â loceri ar gael i'r staff. Gwelsom fod toiledau'r staff a thoiledau'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar, gan gynnwys ar gyfer y rhai ag anawsterau symudedd.

Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol. Roedd y cyfleusterau a'r cyfarpar clinigol a oedd yn cael eu defnyddio yn hybu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff, gan gynnwys mewn argyfwng. Roedd tystysgrifau diogelwch ar gael ar gyfer profion offer cludadwy, gwifrau sefydlog a'r gwiriadau diogelwch nwy blynyddol. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar a'u bod yn addas.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch tân cadarn ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd, ochr yn ochr ag arddangos arwyddion allanfa dân a dim smygu yn glir. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau cadarn ar waith i gynnal lefel dda o lendid ym mhob rhan o'r practis. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau a welsom yn amlinellu'n effeithiol y dulliau i'r staff ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael fel mater o drefn i bob aelod o'r staff, ac roedd yr holl weithdrefnau ac arwyddion mewn perthynas â hylendid dwylo yn addas. Gwelsom fod mesurau priodol ar waith i atal anafiadau a achosir gan nodwydd, a gwelsom fod asesiadau risg priodol ar waith i fonitro'r risg o niwed o ganlyniad i anafiadau a achosir gan offer miniog. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu darparu i'r staff drwy'r bwrdd iechyd, ac wrth i'r

gwasanaeth symud i ffwrdd o'i gontract gyda'r GIG, gwelsom fod trefniadau'n cael eu gwneud i roi contract preifat priodol ar waith.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn'. Roedd pob un o'r cleifion hefyd o'r farn bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau; dywedodd un claf:

“Yn eithriadol o lân, staff cyfeillgar ac amgylchedd glân. Byddwn yn ei argymhell dro ar ôl tro.”

Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dda fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Roedd gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir yn ystafell ddihalogi'r practis. Roedd glanhau uwchsain a sterileiddio awtoclaf yn digwydd. Gwelsom gofnodion priodol a oedd yn dangos bod gwiriadau a phrofion dyddiol yn cael eu cynnal o gylchredau'r peiriant awtoclaf, a bod amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar waith yn unol â'r canllawiau presennol. Roedd y trefniadau ar gyfer profi a gwirio'r glanhawr uwchsain hefyd yn addas. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i'r lefel gywir ar ddihalogi cyfarpar.

Roedd yr holl wastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gontract gwaredu gwastraff addas. Roedd y prosesau a oedd ar waith ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) yn foddhaol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu unrhyw feddyginiaethau yn gynhwysfawr. Gwelsom fod padiau presgripsiwn y practis yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Gwelsom fod mesurau cadarn ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob un ohonynt yn meddu ar gymwysterau ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Roedd y silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu'n briodol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl gyfarpar brys a bod y cyfarpar yn barod i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau'n cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru, yn

nodi arweinydd diogelu dynodedig, ac yn cynnwys siart lif hawdd ei deall a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol. Roedd y siartiau llif hyn hefyd yn cael eu harddangos yn ardaloedd y staff er mwyn sicrhau y gellid dod o hyd iddynt yn hawdd pe bai angen gwneud atgyfeiriad brys. Roedd diweddariadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu cyfleu drwy hyfforddiant a'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar ddiogelu plant ac oedolion.

Esboniodd pob un o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod sut i adnabod arwyddion camdriniaeth, pwy i gysylltu ag ef pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu, ac y byddent yn teimlo bod y practis yn eu cefnogi pe byddent yn mynegi pryder o'r fath.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom sut roedd holl ddyfeisiau a chyfarpar y practis yn cael eu defnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ac arsylwi arnynt yn ystod yr arolygiad yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar ac roedd y cofnodion yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiant system ar gyfer yr holl gyfarpar a arolygwyd gennym.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn hollol gyflawn ac yn hawdd ei defnyddio, ac roedd copïau o'r rheolau lleol ar gael yn hawdd i'r staff yn y meddygfeydd. Roedd y clinigwyr yn amlinellu'n glir y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â risgiau a manteision dod i gysylltiad ag ymbelydredd yng nghofnodion y cleifion. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gysylltiadau ag ymbelydredd ar gyfer eu rolau.

Rheoli Laser Dosbarth 3B/4

Roedd y practis wedi'i gofrestru gydag AGIC i weithredu dyfais laser ar gyfer triniaethau llawfeddygol deintyddol. Gwelsom fod y cyfarpar laser mewn cyflwr da i bob golwg, bod yr ystafell yn addas gydag arwyddion priodol yn eu lle, a bod y trefniadau storio ar gyfer y cyfarpar yn ddiogel. Roedd yr holl gyfarpar wedi cael ei wasanaethu a'i galibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Gwelsom fod gwiriadau o'r cyfarpar yn cael eu cynnal ar y peiriant yn rheolaidd.

Roedd yr holl ddogfennaeth yn ymwneud â'r cyfarpar laser, gan gynnwys asesiad risg y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'r rheolau lleol, yn briodol ac yn gyfredol. Gwelsom fod yr holl staff a oedd yn ymwneud â gweithredu neu gefnogi gweithrediad y laser wedi cael hyfforddiant i wneud hynny.

Wrth edrych ar gofnod dau glaf lle defnyddiwyd y laser, gwelsom fod y rhain yn gyflawn ar y cyfan ac yn cynnwys y gweithredwr, cydsyniad ysgrifenedig llawn, a'r manau a gafodd eu trin. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion yn cofnodi'r gosodiad allbwn ar gyfer triniaethau ar hyn o bryd, megis yr allbwn pŵer. Dywedodd staff y practis y byddent yn defnyddio'r un gosodiadau'n rheolaidd; fodd bynnag, roedd y peiriant yn gallu defnyddio allbynnau pŵer a gosodiadau allbwn gwahanol, a dylid eu cofnodi'n ffurfiol yn nodiadau'r cleifion. Cymerodd y lleoliad gamau ar ddiwrnod ein harolygiad i ychwanegu'r gofyniad hwn at eu templedi ar gyfer nodiadau cleifion, gan nodi y byddai hyn yn cael ei gofnodi'n llawn o hyn ymlaen.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu'r cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion y cleifion yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt, gan gynnwys y rhai ar gyfer y peiriant laser. Gwelsom restrau gwirio clinigol cynhwysfawr a oedd wedi'u diweddarau'n ddiweddar i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal a ddarperir i'r cleifion. Roedd y cofnodion yn cynnwys proses addas o gofnodi cydsyniad ar sail gwybodaeth, siartiau sylfaenol llawn, gwiriadau y tu mewn a'r tu allan i'r geg, ynghyd â chofnod cyfoes o'r triniaethau a ddarperir. Dywedodd pawb ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a oedd yn diwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud yn

effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol, gan gynnwys therapydd a hylenydd y practis. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain mewn modd amserol gan y clinigwyr. Gwelsom y modd yr oedd apwyntiadau'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan staff â chymysgedd sgiliau priodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwnaethom nodi bod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Dywedodd aelodau tîm rheoli'r practis wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu rolau arwain yn effeithiol. Gwelsom fod y rheolwyr yn weladwy a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent fynd at y rheolwyr i drafod newidiadau neu welliannau. Clywsom fod cyfarfodydd staff anffurfiol yn cael eu cynnal fel arfer bob yn ail ddiwrnod a bod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal yn fisol a bod pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn cael eu rhoi ar yr hysbysfwrdd i'r aelodau o'r staff nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Wrth edrych ar gofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch y dderbynfa, adborth gan gleifion a chynnydd y cynllun deintyddol.

Roedd system archwilio addas yn cael ei defnyddio i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, problemau ac unrhyw ffactorau lliniaru. Byddai rheolwr y practis yn rhannu hysbysiadau diogelwch â'r staff mewn cyfarfodydd neu drwy e-bost a byddai unrhyw hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos.

Roedd pob un o bolisiâu'r practis yn cael eu cadw ar ffurf copi caled mewn ffolderi a oedd yn cael eu cynnal yn dda ac a oedd yn glir i'r staff ddod o hyd iddynt a'u darllen. Roedd y polisiâu a welsom yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, a gwelsom sut roedd newidiadau'n cael eu rhannu â'r staff mewn modd effeithiol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Ar y cyfan, gwelsom amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn broffesiynol, ac roedd y rhyngweithiadau a welsom rhwng y staff yn dangos cymorth cryf i'w gilydd. Roedd y gweithdrefnau sefydlu yn cael eu goruchwyllo gan reolwr y practis ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y gweithdrefnau hyn yn gadarn. Roedd y practis yn gweithredu system rota i sicrhau bod nifer priodol o staff wedi'u hyfforddi'n addas yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Roedd arfarniadau'n cael eu cynnal yn flynyddol ac eglurodd y rheolwyr broses addas ar gyfer rheoli unrhyw broblemau'n ymwneud â pherfformiad.

Gwnaethom adolygu cofnod pum aelod o staff allan o'r 15 a oedd yn gweithio yn y practis. Yn y cofnodion hyn, gwelsom fod gan bob aelod o'r staff gofrestrïadau cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, imiwnedd Hepatitis B wedi'i ddogfennu a gwiriadau geirda cyn cyflogi. Roedd gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei gofnodi yn ffeil pob aelod o'r staff ar ddechrau eu cyflogaeth. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hunanddatganiadau yn cadarnhau nad oedd unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu gwiriad DBS gwreiddiol.

Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r holl hyfforddiant gorfodol. Roedd yr holl aelodau o staff yn cael amser i ymgymryd â hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'w rolau a oedd yn amlwg yn y cofnodion a welsom. Roedd gan reolwr y practis system addas ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Roedd polisi chwythu'r chwiban y practis yn rhoi canllawiau i'r staff ar sut y gallent fynegi pryderon. Dywedodd yr holl aelodau staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus i roi gwybod am bryderon, ac y byddai'r practis yn eu trin yn deg pe baent yn gwneud hynny. Dywedodd yr holl aelodau o staff hefyd y byddai'r practis yn cymryd camau i sicrhau na fyddai digwyddiadau'n codi eto.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd arolygon ar gael i'r cleifion yn y dderbynfa, a oedd yn cynnwys ffurflen hawdd ei deall wedi'i theilwra i gleifion pediatrig ei chwblhau. Roedd blwch awgrymiadau ar gael i'r cleifion roi adborth yn ddiennw ac roedd adolygiadau ar-lein yn cael eu defnyddio hefyd. Gwelsom fod ffurflenni adborth papur yn cael eu hadolygu bob chwarter, a bod ffurflenni ar-lein yn cael eu gwirio pan oeddent yn dod i law rheolwyr y practis. Roedd ymatebion i adborth i'w gweld yn ardal y dderbynfa ar hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Un enghraifft o ymateb i adborth gan gleifion oedd symud man parcio i bobl anabl y tu allan i'r feddygfa er mwyn ei gwneud yn haws i gleifion ei ddefnyddio.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd yn llawn â gweithdrefnau Gweithio i Wella'r GIG ac roedd gwybodaeth amdano ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn gwyno yn enwi'r aelod o staff y dylai'r cleifion gysylltu ag ef. Roedd unrhyw gŵynion llafar yn cael eu cofnodi mewn llyfr a oedd yn cael ei gadw yn y dderbynfa i reolwr y practis weithredu arnynt a'u trafod yng nghyfarfod nesaf y practis. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y polisi cwynion i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, sef Llais.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Gwelsom fod polisi'r practis yn addas a bod hyfforddiant ar gael i'r staff. Gwnaethom adolygu'r un digwyddiad Dyletswydd Gonestrwydd a gofnodwyd ar ffeil, a gwelsom dystiolaeth iddo gael ei drin yn unol â'r canllawiau.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, ansawdd delweddau radiograffig, hylendid dwylo yn ogystal ag archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd y practis wedi ymgymryd â Chynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yn 2025. Nodwyd nad oedd archwiliadau mynediad i bobl anabl wedi'u cwblhau fel gweithgaredd annibynnol ond bod y rhan fwyaf o elfennau'r archwiliad wedi'u cynnwys yn archwiliadau cynnal a chadw'r adeilad a gwblhawyd. Yn ystod ein harolygiad, diweddarodd rheolwr y practis ei dempledi er mwyn gwahanu mynediad i bobl anabl mewn archwiliad ar wahân, i'w gwblhau'n rheolaidd.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda phartneriaid eraill yn y system iechyd, gan gynnwys y feddygfa a'r fferyllfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau a oedd yn cyrraedd ac yn gadael y practis.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: West Coast Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 13 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: West Coast Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 13 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella i'w cynnwys yn y cynllun hwn.					